



National
Trust

Responsible Provider Experiences Scheme

Ar gyfer darparwyr

Cynllunydd profiad:

Ydych chi'n awyddus i drefnu profiad yn un o leoliadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu ar dir yr ydym yn gofalu amdano? P'un a ydych yn cynllunio rhywbeth actif, profiad cymdeithasol neu ddiwylliannol, dilynwch y broses isod:

1

Deall eich
effaith ar y
dirwedd

Darllenwch ein
canllaw gwybodaeth
byr yma.

Mae ein proses yn
berthnasol i
ddarparwyr,
grwpiau neu
sefydliadau
ar unrhyw raddfa
gan gynnwys;
elusennau, CICS a
masnachol

2

Gwiriwch pa fath o
dir y byddwch yn
ei ddefnyddio

Gallai hyn fod yn un
o'r canlynol neu
gyfuniad o:

- Tir neu adeiladau yr
Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
- Hawl Tramwy
Cyhoeddus
- Tir â statws
gwarchodedig
(yn aml SoDdGA)

*Bydd mapiau OS a
thudalen Safleoedd
Dynodedig Natural
England yn rhoi'r rhan
fwyaf o'r wybodaeth sydd
ei hangen arnoch i chi.*

3

Siaradwch â
ni!

Cysylltwch â'r tîm
eiddo (gweler y
wefan am
gyfeiriad e-bost),
gan ddyfynnu
'REPS Enquiry' yn
y llinell bwnc.

- Bydd rhai
ymholiadau yn
dod i ben yma –
ond mae'n dda
bod yn
ymwybodol o'ch
cynlluniau
- Bydd angen i
eraill symud
ymlaen i'r cam
nesaf

4

Os oes angen
cytundeb arnoch,
byddwn yn rhoi
gwybod i chi

Efallai y
gofynnir i chi
lenwi ffurflen
Cyfnewid
Gwybodaeth i
gasglu mwy o
fanylion.
Byddwn hefyd
yn cynghori ar
unrhyw gamau
pellach ar yr
adeg hon.

5

Cydweithio i
gwblhau
cytundeb

Bydd angen un arnoch ar gyfer:

- Defnyddio tir sydd oddi ar yr
hawl tramwy cyhoeddus (gan
gynnwys meysydd parcio)
 - Defnyddio tir sydd â statws
gwarchodedig (e.e. SoDdGA)
 - Gwerthu bwyd, diodydd neu
alcohol
 - Chwarae cerddoriaeth
- Efallai y byddwn hefyd yn gofyn
ichi am:
- Yswiriant Atebolrwydd
Cyhoeddus
 - Yswiriant Atebolrwydd
Cyflogwyr
 - Asesiad Risg

6

Cadwch mewn
cysylltiad!

Efallai y
byddwn yn
gallu rhannu
rhai straeon
cadwraeth
neu
ddiwylliannol
y gallai eich
cyfranogwyr
eu mwynhau
tra byddant
gyda chi



National
Trust

Responsible Experiences Provider Scheme

Rhai enghreifftiau:

Mae llawer o wahanol senarios posibl, a dyna pam ei bod hi'n bwysig siarad â thîm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel y gallant ddeall eich sefyllfa a'ch cynghori. Dyma rai o'r trefniadau mwyaf cyffredin.



Man cychwyn/gorffen a chyfeirbwyntiau

Ras neu daith gerdded wedi'i threfnu gan ddefnyddio llwybrau hawl tramwy cyhoeddus. Bydd angen cytundeb syml arnoch i osod gasebos yn y mannau cychwyn/gorffen ac unrhyw gyfeirbwyntiau. Meddylwch hefyd am effaith niferoedd uchel o bobl ar y dirwedd/natur.



Ysgolion Coedwig a gweithdai awyr agored

Rydych chi eisiau cynnal gweithgareddau neu weithdai addysgiadol. Bydd angen i chi roi gwybod i ni ac efallai y bydd angen trefniant penodol arnoch.



Gwneud a chreu pethau

Rydych yn cynllunio gweithgaredd creadigol yn un o leoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu wedi'i ysbrydoli gan un ohonynt (gan gynnwys ffotograffiaeth). Os yw'r defnydd a fwriedir yn fasnachol, bydd angen i chi gael cytundeb ar waith.

Ar gyfer darparwyr



Gwerthiannau: bwyd, diod, nwyddau, alcohol

Rydych chi'n trefnu rhai stondinau consesiwn ar gyfer eich cyfranogwyr. Mae angen i chi rannu eich cynlluniau fel y gallwn sicrhau eich bod wedi gwneud cais am unrhyw ganiatâd statudol a'u bod ar waith.



Peidiwch â defnyddio logo a brandio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar eich deunyddiau hyrwyddo oni bai bod hyn yn benodol wedi'i gytuno gyda chi. Dim ond pan fyddwn ni'n gydwesteion neu os yw'n ddigwyddiad strategol bwysig y caniateir hyn.